



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • teclst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Canllawiau Statudol a Chod ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb: Ymateb Cymorth i Ferched Cymru

Enw:	<i>Heddwen Daniel, Swyddog Atal a Swyddog Datblygu Gwasanaethau</i>
Sefydliad:	<i>Cymorth i Ferched Cymru</i>
Ebost:	<i>heddwendaniel@welshwomensaid.org.uk</i>
Rhif ffôn:	<i>02920 541 551</i>
Cyfeiriad	<i>Tŷ Pendragon, Caxton Place, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE</i>
Dyma farn:	<i>Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) – yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.</i>

Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) arbenigol annibynnol yn y trydydd sector yng Nghymru. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth a gwaith ataliol sy'n achub bywydau ac yn newid bywydau mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y DU.

Fel corff ymbarél, ein prif nod yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math arall o drais yn erbyn menywod a phlant a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel i oroeswyr sy'n cael eu harwain gan anghenion, yn ymateb i rywedd ac yn gyfannol. Rydym ni'n cydweithio'n genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion cymunedol ac ymarfer yng Nghymru; rydym ni'n cynnig cyngor, ymgynghoriaeth, cymorth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau llywodraeth, sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac mewn cymunedau, er budd goroeswyr.

Mae ein haelodau'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc fel goroeswyr VAWDASV ac mewn cyd-destun addysgol a chodi ymwybyddiaeth. Gyda'n gilydd ein nod yw sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn deall achosion VAWDASV, yn adnabod cam-drin a gwybod ymhle mae cymorth ar gael. Mae ein haelod-wasanaethau'n gweithio i sicrhau bod y rhai yr effeithir arnynt yn cael eu canfod, eu diogelu rhag niwed pellach a'u cefnogi i ymadfer a ffynnu drwy gael gwasanaethau arbenigol ansawdd uchel. Fe wnawn hyn drwy hyrwyddo 'dull addysg gyfan' ar gyfer atal VAWDASV ac ymyrraeth gynnar. Rydym ni hefyd yn bartner cyflwyno 'Gofyn a Gweithredu' dan y [Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol](#), sy'n hysbysu, codi sgiliau a chodi hyder gweithwyr y sector cyhoeddus i adnabod ac ymateb i bobl sy'n profi / cyflawni cam-drin.

Yn 2017 ymunon ni â rhanddeiliaid eraill i fwydo i Adolygiad y Panel Arbenigol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru.¹ Ers mis Awst 2020, rydym ni wedi cyfrannu'n rheolaidd i Weithgor Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb Llywodraeth Cymru, ac ym mis Hydref 2020 cyflwynom ni dystiolaeth ffurfiol i Bwyllgor Plant, Pobl ifanc ac Addysg Senedd Cymru ar y Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb arfaethedig.

Cyflwyniad

Rydym ni'n falch i gael y cyfle i gynnig sylwadau pellach ar y Canllawiau Statudol a Chod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. O'r dechrau, mae'n bwysig pwysleisio ein cefnogaeth lawn i'r nod o gyflwyno cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd mandadol sydd wedi'i wreiddio yn egwyddorion hawliau, cyfiawnder a chynwysoldeb.

Aethom ati i ymgynghori â thri grŵp o randdeiliaid i lywio ein hymateb i'r ymgynghoriad: goroeswyr cam-drin domestig ifanc (oed ysgol uwchradd); goroeswyr cam-drin domestig and mathau eraill o drais yn erbyn menywod sy'n oedolion; a Gweithwyr Cymorth Plant o dri gwasanaeth arbenigol yng Nghymru. Caiff ein hymateb i bob cwestiwn ei lywio gan ein safbwynt fel sefydliad yn ogystal â barn a fynegwyd yn ystod yr ymarferion ymgynghorol hyn. Fel y corff ymbarél ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru, bydd ein hymateb yn canolbwyntio ar y meysydd yn y Canllawiau a'r Cod sy'n ymwneud ag atal, a chefnogi goroeswyr VAWDASV.

Argymhellion Allweddol

Trafodir cwestiynau penodol yr ymgynghoriad yn llawn isod. Fodd bynnag mae'r canlynol yn grynodedb o'n hargymhellion allweddol:

Argymhelliad 1: Rydym ni'n argymell golygu'r diffiniad o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb er mwyn adlewyrchu'n well yr hyn a gynigiwyd yn y *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru (Drafft)*.² Dylid nodi rhai nodweddion allweddol o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ansawdd uchel yn gliriach, gan gynnwys ei bod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gywir yn wyddonol; a'i bod yn seiliedig ar gydraddoldeb o ran rhywedd a hawliau dynol, ac yn eu hyrwyddo.

Argymhelliad 2: Rydym ni'n argymell bod y Canllawiau ddiffinio'n glir beth yw 'dull ysgol gyfan' yn nhermau ei elfennau craidd (addysg i ddisgyblion, staff, a rhieni/gofalwyr; cyfranogiad gweithredol disgyblion a staff; ymgysylltu â'r gymuned; diwylliant ysgol iach, gyda chefnogaeth polisïau; partneriaethau gyda gwasanaethau arbenigol / arbenigwyr lleol; sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ansawdd uchel ar gael ac yn hygyrch i bawb; a threfniadau ar gyfer monitro effaith a llywio newid). Dylai fod yn glir bod yr holl agweddau hyn, gyda'i gilydd yn ffurfio dull ysgol gyfan.

¹ Dyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru: Argymhellion y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd. Ar gael ar-lein: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-y-cwricwlwm-addysg-rhyw-a-pherthnasoedd-yng-nghymru.pdf>

² Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru (Drafft)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email


Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Argymhelliad 3: Rydym ni'n argymell bod yr egwyddorion yn cael eu golygu i nodi'n benodol rôl y gwasanaethau arbenigol yn (a) darparu hyfforddiant i staff ar faterion arbenigol a (b) cyflwyno sesiynau ar bynciau arbenigol yn enwedig yn ymwneud â mathau o VAWDASV, a (c) darparu cymorth arbenigol i ddisgyblion (a staff) sy'n dymuno ei gael. Dylid amlygu manteision (a) a (b) i sicrhau bod y rheini yr effeithir arnynt yn gallu gofyn am / cyrchu cymorth arbenigol yn rhwydd.

Argymhelliad 4: Rydym ni'n argymell bod Llywodraeth Cymru'n cynnal ymarferion ymgynghorol pellach gyda phlant a phobl ifanc i holi eu barn am yr hyn maent yn ei ystyried sy'n 'ddatblygiadol briodol', yr adegau y credant y dylid cyflwyno gwahanol agweddau ar y cwricwlwm, yn ogystal â'u barn yn fwy eang ar a yw'r 'cynnwys' yn y Cod yn ddigonol.

Argymhelliad 5: Rydym ni'n argymell bod y Cod yn nodi'n benodol *bob math* o VAWDASV, gan gynnwys aflonyddu rhywiol, ac y cynhwysir nod yn y cod i ddeall y cyswllt rhwng effaith arferion, normau ac ystrydebau rhywiaethol ar gyflawni / atal VAWDASV.

Argymhelliad 6: Rydym ni'n argymell bod y canllawiau'n cynnwys adran am gynnwys llais y disgybl i lywio cynnwys a dilyniant y cwricwlwm mewn ffordd sy'n ymateb i'w hanghenion datblygiadol, ac sy'n argymell trefniadau effeithiol ar gyfer ymgysylltu â disgyblion.

Argymhelliad 7: Rydym ni'n argymell bod y canllawiau'n cael eu golygu i nodi bod rhaid (nid dylai) i bob PRU ac ysgol a gynhelir, cynradd, uwchradd ac arbennig fod â pholisi ysgrifenedig cyfredol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i gymryd lle'r 'polisi addysg rhyw'. Rydym ni'n argymell ymhellach bod y canllawiau'n ehangu ar bwysigrwydd ymgysylltu'n rhagweithiol gyda rhieni a gofawlyr. Yn olaf ar y mater hwn, rydym ni'n argymell bod y canllawiau'n cynnwys atodiad gyda thempled o bolisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n egluro'n glir sut mae polisiau ar gyfrinachedd, diogelu, diogelu plant a VAWDASV yn gysylltiedig ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Argymhelliad 8: Rydym ni'n argymell bod y canllawiau'n argymell bod pob lleoliad addysg yn penodi arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb dynodedig i arwain ar ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Argymhelliad 9: Rydym ni'n argymell bod y canllawiau'n cael eu diweddarau i gynnwys enghreifftiau o arfer gorau mewn perthynas â phob maes Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a'u bod yn cynnwys rhestr o adnoddau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y sicrhawyd eu hansawdd a/neu a ddatblygwyd gan arbenigwyr a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 10: Rydym ni'n argymell bod y canllawiau'n cael eu golygu i sicrhau nad oes lle i gamddehongli ymrwymiad lleoliadau ysgol i sicrhau bod eu cwricwla yn gynhwysol o ran cyfeiriadedd / hunaniaethau LHDTTC+.

Argymhelliad 11: Rydym ni'n argymell bod Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i ddarparu cyllid neilltuedig ar gyfer datblygiad proffesiynol mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb – ar gyfer staff presennol ond hefyd ei wreiddio mewn hyfforddiant i athrawon yn y dyfodol. Rydym ni hefyd



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i gynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer cymorth arbenigol i blant a phobl ifanc sy'n profi VAWDASV.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1 - Ydych chi'n cytuno bod yr esboniad o'r diffiniad o addysg cydberthynas a rhywioldeb yn glir?

Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
------------------	--------------------------	-----------	-------------------------------------	---------------------------------	--------------------------	--------	--------------------------	---------------	--------------------------

Rydym ni'n falch i weld cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn y Cyflwyniad/Diffiniad. Credwn fod hyn yn werthfawr i atgoffa'r rheini sydd â'r dasg o roi'r cwricwlwm ar waith mai nod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yw gwireddu llawer o'r hawliau plant a gynhwysir mewn cytuniad rhyngwladol sy'n sail ar gyfer llunio polisiau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Fodd bynnag, rydym o'r farn fod y diffiniad o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ddiffygiol. Roedd cytundeb cyffredinol ar draws yr holl grwpiau a fwydodd i'n hymateb fod iaith y diffiniad yn rhy amwys, ac nad yw'n rhoi syniad clir o'r hyn yw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Yn hytrach, dim ond nodi rhai o'r canlyniadau y gobeithir y bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn eu cyflawni a wneir.

Byddem ni hefyd yn pwysleisio cyfyngiad pellach i'r diffiniad a nodwyd gan y grŵp goroeswyr oedolion yr ymgynghorwyd â nhw: nid yw'n esbonio'n ddigonol *pam* fod angen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Nid yw'n esbonio bod plant a phobl ifanc eisoes yn cael eu haddysgu am berthnasoedd a rhywioldeb yn eu bywydau bob dydd, boed yn yr ysgol, yn eu cartrefi neu mewn cymunedau ehangach (gan gynnwys ar-lein). Gall hyn gynnwys, er enghraifft, modelu a/neu hyrwyddo perthnasoedd afiach neu niweidiol, a mathau 'dymunol' ystrydebol o gyrff, rhywioldeb a/neu ymddygiad rhywioliedig. Mewn geiriau eraill, mae'r diffiniad yn methu â chyflwyno cyd-destun i'r angen am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb amgen gadarnhaol sy'n herio'r normau a'r ystrydebau hyn, ac yng ngeiriau un goroeswr ifanc, sy'n "dysgu pawb y dylen nhw gael eu trin yr un fath, waeth beth maen nhw'n dewis bod".

Yn y sector VAWDASV cafwyd cydnabyddiaeth ers tro byd fod addysg yn hanfodol ar gyfer atal VAWDASV. Fydd bynnag, nid yw cymunedau ysgol (staff, disgyblion, rhieni, y gymuned ehangach) yn arbenigwyr VAWDASV ac nid ydynt o reidrwydd yn deall ei achosion craidd. Felly ni allwn ragdybio y byddant yn deall pam fod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn offeryn angenrheidiol a phwerus ar gyfer atal VAWDASV, yn ogystal â chanfod rhai o'r rheini sydd angen cymorth.

Rydym ni'n deall awydd Llywodraeth Cymru i hyrwyddo ymagwedd gadarnhaol, seiliedig ar ganlyniadau at Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, yn unol â'r cwricwlwm ehangach. Fodd bynnag, ein barn ni, a barn y grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw, yw bod angen labelu ymddygiad, perthnasoedd, ystrydebau a normau niweidiol yn benodol er mwyn i'r gynulleidfa darged



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email


Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

werthfawrogi gwerth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wrth atal niwed, a chyflawni pedwar diben trosfwaol y cwricwlwm.

Rydym ni'n argymhell golygu'r diffiniad o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb er mwyn adlewyrchu'n well yr hyn a gynigiwyd yn y *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru (Drafft)*³. Dylid nodi rhai nodweddion allweddol o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ansawdd uchel yn gliriach, gan gynnwys ei bod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gywir yn wyddonol; a'i bod yn seiliedig ar gydraddoldeb o ran rhywedd a hawliau dynol, ac yn eu hyrwyddo.

Codwyd tri phwynt arall gan aelodau o'r grwpiau y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno eu hystyried: yn gyntaf, roedd rhai'n credu bod yr acronym Saesneg "RSE" yn ddryslyd, yn enwedig o ystyried ei debygrwydd i acronym *Religion, Values and Ethics*. Awgrymwyd efallai y byddai "SRE" yn well.

Mae'r ail bwynt yn ymwneud eto â'r enw ar y cwricwlwm: roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad yw'r enw "addysg cydberthynas a rhywioldeb" a'i ddiffiniad yn ei gwneud yn ddigon clir ei bod yn iawn i bobl ifanc ddewis peidio â bod mewn perthynas/yn rhywiol weithredol: h.y. nid yw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ymwneud â pherthnasoedd â phobl eraill yn unig ond hefyd â pherthynas yr unigolyn â'i hun. Cytunodd llawer o'r ymatebwyr bod cael perthynas iach gyda'ch hun yn flaenoriaeth.

Y trydydd pwynt oedd mynegi cefnogaeth i gynnwys swyddogaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i helpu pobl ifanc i ddeall sut mae perthnasoedd a rhywioldeb yn "ffurfio bywydau pobl eraill" yn ogystal â'n bywydau ein hunain yn y diffiniad. Roedd y grwpiau'n teimlo ei bod yn bwysig bod ystyriaeth i effaith ein hymddygiad ar bobl eraill yn cael lle blaenllaw yn y cwricwlwm.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno bod yr egwyddorion ar gyfer ymwreiddio addysg cydberthynas a rhywioldeb yn glir?

Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
------------------	--------------------------	-----------	-------------------------------------	---------------------------------	--------------------------	--------	--------------------------	---------------	--------------------------

Ein barn ni, a barn y grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw, yw bod rhai o'r egwyddorion hyn yn glir, tra bo eraill yn llai clir. Yma rydym ni'n canolbwyntio ar y rhai sydd, yn ein barn ni, angen eu hegluro.

Yn gyntaf, rydym ni'n falch fod cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb drwy 'ddull ysgol gyfan' yn cael ei nodi'n egwyddor graidd, ond credwn y gellid cynnig diffiniad cliriach o 'dull ysgol gyfan'. O'n hymwneud ni ag ysgolion, gwasanaethau arbenigol, a'r sector statudol, fe wyddom fod gan bobl ddealltwriaeth gwbl wahanol i'w gilydd am yr hyn yw dull ysgol gyfan. Dros y blynyddoedd diweddar mae'n ymddangos bod argyhoeddiad cryf wedi datblygu mai dyma'r dull cywir i'w ddefnyddio gydag amrywiol faterion (e.e. iechyd meddwl a lles, mynd i'r afael â bwlio, ymdrin ag ymddygiad rhywiol niweidiol), ond does fawr o gysondeb yn y ffordd y caiff ei egluro. Mae rhai gweithwyr proffesiynol yn sôn am y peth mewn termau addysgol i ddisgyblion a hyfforddiant i staff yn unig (nid dull ysgol

³ Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tekst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email


Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

gyfan); mae eraill yn cynnwys rhai egwyddorion ychwanegol, fel ymgysylltu â disgyblion a/neu ymgysylltu â'r gymuned. Fodd bynnag, prin y caiff ei drafod yn nhermau'r naw egwyddor a osodwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ei hun ar gyflwyno 'dull addysg gyfan' i atal VAWDASV.⁴ Dylid defnyddio hwn, neu fodel tebyg, mewn perthynas â'r holl gwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Nid yw'r diffiniad presennol yn y rhestr geirfa'n ddigon clir ac mae'n debygol o annog amrywiol ddehongliadau o'r hyn yw dull ysgol gyfan.

Rydym ni'n argymhell bod y Canllawiau ddiffinio'n glir beth yw 'dull ysgol gyfan' yn nhermau ei elfennau craidd (addysg i ddisgyblion, staff, a rhieni/gofalwyr; cyfranogiad gweithredol disgyblion a staff; ymgysylltu â'r gymuned; diwylliant ysgol iach, gyda chefnogaeth polisïau; partneriaethau gyda gwasanaethau arbenigol / arbenigwyr lleol; sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ansawdd uchel ar gael ac yn hygyrch i bawb; a threfniadau ar gyfer monitro effaith a llywio newid). Dylai fod yn glir bod yr holl agweddau hyn, gyda'i gilydd yn ffurfio dull ysgol gyfan.

Yn ail, rydym ni'n falch i weld cydnabyddiaeth i'r rôl hanfodol y bydd arbenigwyr yn ei chwarae i sicrhau llwyddiant y cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, credwn nad yw'r canllawiau'n egluro'n ddigonol ym mha ffordd y bydd angen arbenigedd penodol. Mae'r cyswllt rhwng dwy ran y gosodiad "Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb effeithiol yn gofyn am arbenigedd, amser ac adnoddau arbenigol" a "Bydd hyn yn sicrhau bod amgylchedd cefnogol yn cael ei greu fel bod dysgwyr ac ymarferwyr yn gallu trafod materion a all fod yn sensitif neu'n heriol a dysgu amdanynt yn ddiogel" yn gwneud synnwyr dim ond os yw arbenigwyr yn cael eu gwahodd i leoliadau addysg i gyflwyno ar eu meysydd arbenigol. Hyd yn oed wedyn gallai'r graddau y mae'r athro dosbarth yn barod i dderbyn yr addysg hefyd gael effaith sylweddol ar ba mor gefnogol mae'r amgylchedd yn teimlo. Nid yw'r canllawiau'n glir ynghylch y lefel o hyfforddiant y dylid ei ddisgwyl i staff yr ysgol i sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi, er enghraifft a ddylai'r holl staff orfod cwblhau Gofyn a Gweithredu yn ogystal â'r hyfforddiant diogelu safonol?

Yn drydydd (ac yn gysylltiedig â'r uchod), rydym ni'n croesawu'r egwyddor sy'n nodi bod "dysgu proffesiynol yn ofyniad allweddol o ran cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o ansawdd da. Dylai ysgolion a lleoliadau alluogi pob ymarferydd i fanteisio ar gyfleoedd dysgu a all ei helpu i feithrin hyder a gwybodaeth ym maes Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb." Fodd bynnag, mae'n bryder nad yw Llywodraeth Cymru hyd yma wedi egluro sut y bydd hyn yn bosibl. Bydd angen i ysgolion gael cyllid i ryddhau staff i ymgymryd â'r hyfforddiant (e.e. i dalu am athrawon cyflenwi) a hyd yma, nid ydym yn ymwybodol fod unrhyw gronfa genedlaethol wedi'i neilltuo ar gyfer dysgu proffesiynol mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Hefyd yn gysylltiedig â hyn mae rôl y gwasanaethau arbenigol yn darparu cymorth i blant a phobl ifanc y mae VAWDASV yn effeithio arnynt. Credwn y dylai'r egwyddorion gynnwys ymrwymiad i sicrhau y dylid cynnig cymorth arbenigol, yn ogystal â chymorth gan yr ysgol, i'r holl blant y mae VAWDASV yn effeithio arnynt, a hynny'n amserol.

⁴ Llywodraeth Cymru (2015) *Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymddrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru*. Ar gael ar-lein: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/dull-addysg-gyfan-o-fynd-ir-afael-a-thrais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-a-thrais-rhywiol.pdf>



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email


Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Rydym ni'n argymhell bod yr egwyddorion yn cael eu golygu i nodi'n benodol rôl y gwasanaethau arbenigol yn (a) darparu hyfforddiant i staff ar faterion arbenigol a (b) cyflwyno sesiynau ar bynciau arbenigol yn enwedig yn ymwneud â mathau o VAWDASV, a (c) darparu cymorth arbenigol i ddisgyblion (a staff) sy'n dymuno ei gael. Dylid amlygu manteision (a) a (b) i sicrhau bod y rheini yr effeithir arnynt yn gallu gofyn am / cyrchu cymorth arbenigol yn rhwydd.

Yn bedwerydd, rydym ni'n croesawu'r egwyddor y dylid cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb "mewn ffordd gynhwysol", "sy'n dysgu sut i werthfawrogi gwahaniaeth ac amrywiaeth fel ffynhonnell cryfder". Fodd bynnag, ni chredwn fod y canllawiau'n ddigon clir wrth egluro sut y dylid sicrhau hyn, nac yn union beth mae "amrywiaeth" a "chynhwysol" yn ei gwmpasu.

Yn bumed, rydym ni'n croesawu'r egwyddor y "Dylai'r addysgu o fewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ymateb i brofiadau byw dysgwyr a pharchu'r profiadau hynny." Fodd bynnag, credwn y byddai'r canllawiau'n cael budd o enghreifftiau o arfer gorau i ddangos beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol.

Yn chweched, mae'r egwyddor hon yn peri dryswch: "Wrth i ddysgwyr symud ymlaen yn eu dysgu, dylent adeiladu ar ddysgu blaenorol – gan gadarnhau a chryfhau'r un ymagweddau ...". Ceir tri chyfeiriad arall at yr "ymagweddau" hyn yn y ddogfen (yn y Cod). Nid yw'n glir pa ymagweddau y cyfeirir atynt.

Ar y cyfan, roedd y grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw'n gefnogol i lawer o'r egwyddorion ond yn teimlo bod diffyg cyfarwyddyd yn y canllawiau ynghylch rhoi'r egwyddorion hyn ar waith.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno bod strwythur a chynnwys y canllawiau yn glir?

Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
------------------	--------------------------	-----------	--------------------------	---------------------------------	--------------------------	--------	-------------------------------------	---------------	--------------------------

Yn gyffredinol, credwn fod strwythur y canllawiau'n glir. Mae ein barn ar gynnwys y canllawiau'n rhan o'n hymateb i Gwestiwn 7.

Cwestiwn 4 – Rydym yn cynnig y bydd y cynnwys a nodir yn nhri cham bras y canllawiau yn dod yn orfodol fel rhan o'r cod addysg cydberthynas a rhywioldeb. Ydych chi'n cytuno eu bod nhw'n cwmpasu'r hyn sy'n bwysig am addysg cydberthynas a rhywioldeb ar gyfer oedran a cham datblygu pob dysgwr?

Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
------------------	--------------------------	-----------	-------------------------------------	---------------------------------	--------------------------	--------	--------------------------	---------------	--------------------------



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno bod yr adran Cod addysg cydberthynas a rhywioldeb yn glir ac yn briodol?

Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
------------------	--------------------------	-----------	-------------------------------------	---------------------------------	--------------------------	--------	--------------------------	---------------	--------------------------

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno mai elfennau gorfodol o'r canllawiau (cod addysg cydberthynas a rhywioldeb) yw'r rhai cywir? A oes unrhyw beth ar goll y dylid ei gynnwys?

Anghytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
------------------	--------------------------	-----------	-------------------------------------	---------------------------------	--------------------------	--------	-------------------------------------	---------------	--------------------------

Rydym ni wedi dewis ymateb i'r tri chwestiwn uchod gyda'i gilydd, gan ddechrau gyda sylwadau cyffredinol ar y Cod, ac yna rai sylwadau penodol am yr hyn a gredwn sydd ar goll o'r Cod. Pwysleisw'n ein bod yn cyfyngu ein ffocws i'r agweddau hynny o'r Cod sy'n berthnasol yn uniongyrchol i VAWDASV.

Strwythuro'r Cod – Mae'n parhau'n aneglur i ni pam fod y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi cefnu ar y chwe maes thematig a gynhwysir yng Nghanllawiau Cwricwlwm y Gymru (hawliau a thegwch; cydberthnasau; rhyw rhywedd a rhywioldeb; cyrff a delwedd gorfforol; iechyd a lles rhywiol; a thrais, diogelwch a chymorth) a dewis tri llinyn cyffredinol sydd nawr yn ceisio trefnu'r cynnwys craidd. Mae pob un o'r chwe maes thematig gwreiddiol yn cynnwys set sylweddol o themâu (a phynciau) sy'n berthnasol i bob plentyn ar bob cam datblygu (er yn amrywio wrth reswm o ran math a lefel o fanylder). Ceir ymdeimlad bod y Cod cyfredol yn cydnabod hyn gan nad yw'n gwaredu'r chwe maes thematig yn llwyr, ond yn hytrach yn eu cadw fel agweddau a allai fwydo i un neu ragor o'r llinynau.

Yn ein barn ni, mae'r tri 'llinyn cyffredinol' a gynigir yn y Cod yn tynnu oddi wrth eglurder y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn hytrach nag ychwanegu ato. Yn enwedig mewn perthynas â VAWDASV, a'r gallu i adnabod pob math o gam-drin a gwahaniaethu, mae cynnwys "trais, diogelwch a chymorth" yn y llinyn cyffredinol "Meithrin diogelwch a pharch, gwerthfawrogiad o'r person a chefnogaeth" yn peri risg fod gan ysgolion ormod o gyfle i ddewis a dethol yr hyn a gaiff ac na chaiff ei ddysgu dan yr ymbarél eang hwn. Mae hyn yn herio prif ddiben y Cod, sef dod â chysondeb i'r hyn a ddysgir ar draws yr holl leoliadau addysg er mwyn i bobl ifanc allu cael Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o safon uchel.

Amseroldeb / camau datblygu: rydym ni'n croesawu'r disgwyliad y caiff Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei chyflwyno yn ôl camau datblygu yn hytrach nag oed cronolegol. Doedd y bobl ifanc a fu'n rhan o'r ymgynghoriad ddim yn gallu cofio unrhyw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr ysgol cyn blwyddyn 6, ac roedd hyn yn gyfyngedig i wers ar lasoed. Roedd yr addysg gynharaf ar gydberthynas y gallent ei chofio ym mlwyddyn 8, i un person ifanc, a blwyddyn 10 i'r lleill. Byddai hyn wedi bod yn 'rhy ychydig, yn rhy hwyr' i lawer o ddysgwyr. Er bod hyn wedi'i drin i raddau



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email


Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

helaeth yn y Cod, cytunwn gyda'r Gweithwyr Cymorth Plant bod y pontio mewn rhai meysydd i'w weld yn rhy haearnaidd - er enghraifft gall fod yn bwysig siarad am faterion yn ymwneud â chydysnio ar oed iau nag 8 mlwydd oed (e.e. gofyn am ganiatâd, deall bod na'n golygu na).

Anghenion Dysgu Ychwanegol – Rydym ni'n croesawu ac yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru y bydd y cwricwlwm newydd, gan gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, yn gwricwlwm i bawb. Fodd bynnag, byddem yn cwestiynu a yw rhai canlyniadau penodol fel “Dealltwriaeth bod deddfau ar waith i'n diogelu rhag pob math o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod” yn gynhwysol i'r holl blant a phobl ifanc.

Rydym ni'n argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cynnal ymarferion ymgynghorol pellach gyda phlant a phobl ifanc i holi eu barn am yr hyn maent yn ei ystyried sy'n 'ddatblygiadol briodol', yr adegau y credant y dylid cyflwyno gwahanol agweddau ar y cwricwlwm, yn ogystal â'u barn yn fwy eang ar a yw'r 'cynnwys' yn y Cod yn ddigonol.

Monitro cyflwyno – Cododd y ddau grŵp o oedolion yr ymgynghorwyd â nhw fonitro: does dim yn y Cod am sut y caiff cyflwyno'r cynnwys craidd ei fonitro (na hyd yn oed a gaiff ei fonitro). Mae monitro ymateb sefydliadau addysgol i VAWDASV yn un o egwyddorion 'dull addysg gyfan' Llywodraeth Cymru ar gyfer atal VAWDASV.⁵ Yn ogystal ag yn Neddf VAWDASV (Cymru) 2015.⁶

VAWDASV - Roedd y ddau grŵp o oedolion yn teimlo nad oedd y Cod yn ddigon clir ar addysgu am VAWDASV a beth mae hyn yn ei olygu. Er ein bod yn croesawu'r cyfeiriad at Ddeddf VAWDASV (Cymru) 2015, rydym yn pryderu mai'r unig ffodd y caiff VAWDASV ei gydnabod yn y Cod yw mewn perthynas â darpariaethau cyfreithiol. Mae'r darpariaethau cyfreithiol hyn yn bwysig iawn wrth gwrs, ond nid yw'n gwneud llawer i helpu lleoliadau addysg i ddeall cyd-destun ehangach VAWDASV ac amrywiol ffurfiau VAWDASV. Dywedodd rhai Gweithwyr Gofal Plant bod ysgolion, yn eu profiad nhw, yn aml yn gyndyn i ddysgu (neu hwyluso gwersi gan arbenigwyr) am gam-drin domestig, nac unrhyw fath o VAWDASV. Yn yr un modd, roedd y goroeswyr oedd yn oedolion yn teimlo bod angen labelu mathau o VAWDASV yn glir yn y Cod - maen nhw'n pwysleisio nad yw'n ymwneud â'r hyn sy'n gydberthnasau iach yn unig, ond edrych hefyd ar gydberthnasau o gam-drin a'r gwahanol ffyrdd maent yn bodoli (e.e. cam-drin domestig, FGM, priodas dan orfod, cam-fanteisio a cham-drin rhywiol). Roedd rhai goroeswyr yn teimlo drwy ganolbwyntio'n ormodol ar fod yn “gadarnhaol” a methu ag adnabod gwahanol fathau o gam-drin, y gallai'r cwricwlwm anwybyddu pynciau pwysig, anodd. Drwy wneud hyn, byddai'n methu â grymuso dysgwyr i adnabod a cheisio cymorth ar gyfer profiadau o aflonyddu a cham-drin, a gallai arwain yn ddiarwybod at orbwysleisio cam-drin corfforol heb roi sylw digonol i fathau eraill o gam-drin emosiynol, seicolegol a rhywiol.

Roedd cytundeb eang hefyd nad oedd y cyswllt rhwng normau ac ystrydebau rhywedd a chyflawni/atal VAWDASV yn glir. Er enghraifft, does dim sôn am bornograffi a'r ffaith fod y rhyw mewn pornograffi'n aml yn gam-drin a bod y 'mwynhad' yn berfformiad. Yn ogystal, o ystyried sut mae iechyd rhywiol / pleser menywod yn draddodiadol wedi'i esgeuluso / gwadu, roedd rhai

⁵ Llywodraeth Cymru (2015) *Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymddrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru*. Ar gael ar-lein: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/dull-addysg-gyfan-o-fynd-ir-afael-a-thrais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-a-thrais-rhywiol.pdf>

⁶ <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/section/9/enacted>



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email


Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

ymatebwyr yn teimlo nad yw'r Cod yn pwysleisio'n ddigonol bod angen dysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o fewn fframwaith cydraddoldeb o ran rhywedd.

Sylwadau ychwanegol – roedd cefnogaeth i gynnwys hunanreoleiddio yn y Cod a'r syniad bod angen i blant gael eu cefnogi i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u hymddygiad eu hunain os ydynt yn niweidio pobl eraill. Roedd eraill yn meddwl bod angen rhoi enghreifftiau o ymddygiad niweidiol, ac y dylai hyn ganolbwyntio nid yn unig ar blant unigol ond ar arferion / amgylchedd ehangach yr ysgol: er enghraifft herio arferion rhywiaethol ac aflonyddu rhywiol.

Rydym ni'n argymhell bod y Cod yn nodi'n benodol bob math o VAWDASV, gan gynnwys aflonyddu rhywiol, ac y cynhwysir nod yn y cod i ddeall y cyswllt rhwng effaith arferion, normau ac ystrydebau rhywiaethol ar gyflawni / atal VAWDASV.

Cwestiwn 7 - Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau yn cynnig gwybodaeth berthnasol i gefnogi ymarferwyr wrth gynllunio eu cwricwlwm ysgol addysg cydberthynas a rhywioldeb?

Anghytuno'n gryf	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno	<input type="checkbox"/>	Cytuno'n gryf	<input type="checkbox"/>
------------------	-------------------------------------	-----------	--------------------------	---------------------------------	--------------------------	--------	--------------------------	---------------	--------------------------

Yn ogystal â'r sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiynau blaenorol, nid ydym yn credu bod y canllawiau'n cynnig y cymorth sydd ei angen ar ymarferwyr wrth gynllunio eu cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Llais y Disgybl / Ymgysylltu: Nid oes digon o bwyslais yn y canllawiau ar gyfranogiad gweithredol disgyblion wrth lunio a llywio cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yr ysgol. Dylai disgyblion gael cyfleoedd rheolaidd i nodi materion sy'n effeithio arnynt a/neu y maen nhw'n dymuno cael gwybodaeth arnynt, a dylai'r cwricwlwm fod yn ymatebol i'r rhain.

Rydym ni'n argymhell bod y canllawiau'n cynnwys adran am gynnwys llais y disgybl i lywio cynnwys a dilyniant y cwricwlwm mewn ffordd sy'n ymateb i'w hanghenion datblygiadol, ac sy'n argymhell trefniadau effeithiol ar gyfer ymgysylltu â disgyblion (adnoddau sydd wedi profi'n llwyddiannus – gweler, er enghraifft, archwiliadau creadigol⁷).

Rhieni: Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu am y diffyg sylw a roddwyd i ymgysylltu â rhieni. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n bwysig ymgysylltu â rhieni i hyrwyddo eu cefnogaeth i'r cwricwlwm. Rydym ni'n croesawu'r rhan o'r Canllawiau sy'n argymhell y dylai ysgolion ddatblygu polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a'r argymhellion cysylltiedig am yr hyn y dylai'r polisi ei gynnwys. Bydd tryloywder o'r fath yn hanfodol i ymgysylltu â rhieni. Fodd bynnag, rydym ni'n pryderu mai argymhelliad yn unig yw hwn, ac nid gofyniad (yn wahanol i'r gofyniad i gael 'polisi addysg rhyw' dan a. 404 Deddf Addysg 1996). Ymhellach, rydym ni'n pryderu bod gorbwyslais ar rôl y polisi hwn

⁷ Renold, Ashton and McGeeney (2021) 'What if?: becoming response-able with the making and mattering of a new relationships and sexuality education curriculum', *Professional Development in Education*, vol. 47(2-3), pp.538-555.



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • teclst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email


Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

a'i hygyrchedd ar gyfer cael ei "archwilio" gan rieni neu ofalwyr, tra bod pwysigrwydd ymgysylltu ystyrllon a rhagweithiol gyda rhieni a gofalwyr yn cael ei esgeuluso. Yn ogystal, er ei fod yn iawn y dylai'r polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb "ddisgrifio sut mae polisiâu'r ysgol ar gyfrinachedd, diogelu, amddiffyn plant a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru 2015 yn berthnasol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb", credwn fod hwn yn rhywbeth a ddylai fod yn glir yn y Canllawiau cenedlaethol hyn – ar hyn o bryd nid ydym yn credu bod y canllawiau'n cyflawni hyn.

Rydym ni'n argymhell bod y canllawiau'n cael eu golygu i nodi bod *rhaid* (nid dylai) i bob PRU ac ysgol a gynhelir, cynradd, uwchradd ac arbennig fod â pholisi ysgrifenedig cyfredol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i gymryd lle'r 'polisi addysg rhyw'. Rydym ni'n argymhell ymhellach bod y canllawiau'n ehangu ar bwysigrwydd ymgysylltu'n rhagweithiol gyda rhieni a gofalwyr. Yn olaf ar y mater hwn, rydym ni'n argymhell bod y canllawiau'n cynnwys atodiad gyda thempled o bolisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n egluro sut mae polisiâu ar gyfrinachedd, diogelu, diogelu plant a VAWDASV yn gysylltiedig ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Dim darpariaeth ar gyfer arweinydd dynodedig ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb - Disgwylir y bydd arweinydd ar bob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad. O ystyried bod *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021* yn ei gwneud y glir y bwriedir i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb groestorri'r chwe maes ac y bydd angen lefel uchel o gydlynw, ymchwilio, paratoi, buddsoddiad a gwybodaeth newydd, mae'n anodd deall pam nad oes argymhelliad yn y canllawiau i bob lleoliad gael arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb dynodedig. Byddai hyn yn unol ag argymhelliad Adroddiad y Panel Arbenigol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (2017) - argymhelliad a dderbyniwyd mewn egwyddor gan y cyn Weinidog Addysg, ac a atgyfnerthwyd gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg presennol, mewn ymateb i adroddiadau diweddar o aflonyddu rhywiol a cham-drin merched mewn ysgolion. Credwn fod cael arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb dynodedig yn hollbwysig i sicrhau llwyddiant y cwricwlwm.

Rydym ni'n argymhell bod y canllawiau'n argymhell bod pob lleoliad addysg yn penodi arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb dynodedig i arwain ar ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Diogelu - fel y nodwyd mewn perthynas â'r rhan ar Bolisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, nid yw'r canllawiau gwneud cysylltiad digonol rhwng Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a diogelu (ond eto mae disgwyl i ysgolion wneud y cysylltiad hwn yn eu polisi unigol). Rhaid i ddiogelu fod yn ganolog mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb - a bydd yn arbennig o hanfodol wrth gynllunio ar gyfer sesiynau'n ymwneud â VAWDASV gan ei bod yn debygol y bydd hyn yn effeithio ar rai dysgwyr yn ogystal â staff a rhieni y bydd angen cefnogaeth arnynt.

Banc adnoddau – un o'r prif bryderon ar draws y ddau grŵp o oedolion oedd: pa adnoddau fydd ysgolion yn eu defnyddio i gyflwyno'r cwricwlwm? Mae'n ymddangos yn glir i ni bod maes mor arbenigol yn galw am adnoddau a ddatblygir gan arbenigwyr. Fodd bynnag, rydym ni hefyd yn ymwybodol na fydd lleoliadau ysgol o reidrwydd yn gwybod pwy yw'r arbenigwyr, na sut i wahaniaethu rhwng adnoddau da a rhai gwael. Yn aml gall gwahaniaethau cynnil iawn o ran geirio gael effaith ddifrifol ar sut y caiff gwybodaeth ei derbyn – mae llawer o ddeunydd wedi'i gyhoeddi sydd ag islais o feio'r dioddefwr, er enghraifft. Credwn ei bod yn hanfodol fod Llywodraeth Cymru'n



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tekst • sgwrsio byw • epost
call • text • live chat • email


Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

ymgyngori ag arbenigwyr ar draws ehangder arbenigeddau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i lunio rhestr o adnoddau cymeradwy, ffeithiol a gwrthrychol sydd â'u hansawdd wedi'i sicrhau.

Enghreifftiau o arfer gorau – Byddai'r canllawiau'n elwa o gael enghreifftiau o arfer gorau mewn perthynas â holl feysydd gwahanol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Rydym ni'n argymhell bod y canllawiau'n cael eu diweddarau i gynnwys enghreifftiau o arfer gorau mewn perthynas â phob maes Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a'u bod yn cynnwys rhestr o adnoddau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y sicrhawyd eu hansawdd a/neu a ddatblygwyd gan arbenigwyr a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Rôl y gwasanaethau arbenigol – Rydym ni wedi cyffwrdd â hyn sawl gwaith yn ein hymateb, ond rydym ni'n teimlo ei bod yn bwysig amlygu cryfder teimladau ymhlith ymatebwyr bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn bwnc y mae'n well cael arbenigwyr i'w gyflwyno. Dywedodd y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â nhw mai dyma fyddai eu dewis nhw, yn hytrach nag athro ysgol, yn bennaf am ei fod yn 'llai embarrassing'. Dywedodd Gweithwyr Gofal Plant sydd eisoes yn cyflwyno sesiynau ar gydberthnasau iach ac amrywiol agweddau'n ymwneud â VAWDASV fod athrawon bob amser yn ddiolchgar iddynt am gyflwyno'r sesiynau gan ddweud eto ac eto na fyddent yn teimlo'n gyfforddus yn eu cyflwyno eu hunain. Dywedodd llawer o'r goroeswyr oedd yn oedolion eu bod yn teimlo y byddai hyn yn dod yn 'faich ar athrawon' ac y dylid annog ysgolon i gynllunio i wahodd arbenigwyr yn rheolaidd. Byddai hyn hefyd yn fuddiol iawn gan sicrhau bod modd i ddysgwyr a staff droi at arbenigwyr am gymorth pe baent yn awyddus / angen gwneud hynny.

Cynwysoldeb LHDTTC+ - Fel y nodwyd eisoes, rydym ni'n croesawu'r angen i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gynnwys hunaniaethau / cyfeiriadedd LHDTTC+. Fel y nododd un ymatebwr, dylai hefyd fod yn glir fod hyn yn cynnwys anrhywioldeb. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen yn darparu unrhyw arweiniad ar roi'r egwyddor hon ar waith. O ystyried bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn draddodiadol wedi bod (ac yn parhau i fod mewn llawer o lefydd) yn heteronormadol, credwn y dylai'r Cod/Canllawiau gynnwys mwy o fanylion am sut y gellir ymdrin â hyn. Mae angen eglurhad hefyd ar y frawddeg ganlynol:

“Yn raddol, dylai dysgwyr gael eu cefnogi i ddeall y ffordd y mae elfennau o hunaniaeth a phwy yw pobl fel unigolion, gan gynnwys amrywiaeth LHDTTC+, eu rhyw, eu rhywedd a'u rhywioldeb, yn datblygu ac yn newid dros amser”

Dylai cynwysoldeb LHDTTC+ fod yn rhywbeth a adlewyrchir o ddechrau i ddiwedd y cwricwlwm, ac nid ei gyflwyno'n raddol, os yw am fod yn adlewyrchiad cywir o brofiadau bywyd yn ein cymdeithas. Gellid cyflawni hyn ar oedrannau iau drwy ddefnyddio sefyllfaoedd teuluol nad ydynt yn heteronormadol. Agwedd arall ar y frawddeg sydd angen ei hegluro yw'r cyfeiriad at “elfennau o hunaniaeth a phwy yw pobl fel unigolion ... yn datblygu ac yn newid”. Dylid bod yn glir na ddylid camdehongli hyn mewn ffordd sy'n tanseilio hunaniaethau LHDTTC+, e.e. bod hunaniaeth o'r fath yn “gyfnod yn unig” ac y bydd dysgwyr yn “tyfu allan ohono”.



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tekst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email


Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Rydym ni'n argymhell bod y canllawiau'n cael eu golygu i sicrhau nad oes lle i gamddehongli ymrwymiad lleoliadau ysgol i sicrhau bod eu cwricwla yn gynhwysol o ran cyfeiriadedd / hunaniaethau LHDTC+.

Cwestiwn 8 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau statudol drafft ar addysg cydberthynas a rhywioldeb yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau atodol

Mae'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg os ceir ymrwymiad i ddatblygu a phrif-ffrydio terminoleg ac adnoddau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn Gymraeg. Ar hyn o bryd caiff llawer o adnoddau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb eu cynhyrchu yn Saesneg yn unig (er bod rhai adnoddau ar gael yn ddwyieithog e.e. rhaglen atal Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch Cymorth i Ferched Cymru). Mae'r diffyg hwn yn arbennig o berthnasol i adnoddau ffilm. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid ar gael i elusennau a sefydliadau arbenigol eraill sy'n ymwneud ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb allu datblygu adnoddau arbenigol yn ddwyieithog.

Cwestiwn 9 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y canllawiau statudol drafft arfaethedig ar addysg cydberthynas a rhywioldeb:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau atodol

Cynnwys rhestr adnoddau o ddeunyddiau addysgu dwyieithog gyda'u hansawdd wedi'i sicrhau, a sicrhau bod y rhestr termau Cymraeg yn ogystal â Saesneg yn cael ei chynnal a'i diweddarau i adlewyrchu datblygiadau mewn cysyniadau ac iaith.



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email


Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Cwestiwn 10 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Teimlwn fod rhaid i ni grybwyll ein siom yn y ffordd mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru wedi methu â darparu cyfle ystyrlon i blant a phobl ifanc, a phobl ag anawsterau dysgu, ymateb i'r Cod a'r Canllawiau. Ein barn ni, o ystyried bod hwn yn ymgynghoriad cyhoeddus, yw y dylai'r dogfennau yr ymgynghorir arnynt adlewyrchu amrywiaeth yr anghenion ar draws poblogaeth Cymru. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried datgeliadau diweddar o aflonyddu rhywiol a mathau eraill o VAWDASV mae merched wedi bod yn eu profi mewn sefydliadau addysgol yng Nghymru, drwy ymgyrch *Everyone's Invited*. Mae Cymorth i Ferched Cymru'n credu y dylai lleisiau goroeswyr fod yn ganolog wrth atal VAWDASV. Drwy fethu â chyhoeddi fersiwn addas i blant neu hawdd ei ddarllen, teimlwn fod cyfran enfawr o gymdeithas Cymru wedi dewis peidio, neu hyd yn oed gael eu rhwystro rhag ymateb. Ymhellach, roedd cytundeb cyffredinol ymhlith y tri grŵp yr ymgynghorwyd â nhw bod y canllawiau ar hyn o bryd yn anodd eu deall ar adegau oherwydd diffyg eglurder neu ddefnydd o eiriau y mae eu hystyr yn amwys ac y gellid eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol.

Hefyd hoffem danlinellu ein pryder ein bod yn dal heb glywed unrhyw beth am y cyllid fydd ar gael ar gyfer cefnogi dysgu proffesiynol; nid ydym wedi clywed dim am gynlluniau i ddylanwadu ar hyfforddiant i athrawon fel bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn rhan o'r hyfforddiant cychwynol yn hytrach na chael ei ychwanegu ar ôl penodi i swydd; a rhaid i ni bwysleisio o ystyried y cynnydd anochel mewn datgeliadau o VAWDASV yn dilyn cyflwyno'r cwricwlwm, ein bod yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn cael cyllid digonol i gynnig y cymorth arbenigol hwn, yn ogystal â chefnogaeth i gyflwyno'r cwricwlwm.

Rydym ni'n argymhell bod Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i ddarparu cyllid neilltuedig ar gyfer datblygu proffesiynol mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb – ar gyfer staff presennol ond hefyd ei wreiddio mewn hyfforddiant i athrawon yn y dyfodol. Rydym ni hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i gynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer cymorth arbenigol i blant a phobl ifanc sy'n profi VAWDASV.

DIWEDD YR YMATEB

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi'n gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech i'ch ymateb aros yn ddiennw ticiwch yma:

